Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol

Y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip
Y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol

22 Mai 2023

Annwyl Weinidogion,

Bil Mudo Anghyfreithlon Llywodraeth y DU

Fel y gwyddoch, cyflwynwyd Bil Mudo Anghyfreithlon Llywodraeth y DU ("y Bil") yn Senedd y DU ar 7 Mawrth 2023. Mae'r Bil yn ceisio newid y gyfraith mewn perthynas â'r rheini sy'n cyrraedd y DU yn groes i fesurau rheolaeth ymfudo, o ran eu cadw a'u symud naill ai yn ôl i'w mamwlad neu i drydedd wlad ddiogel.

Cyflwynodd Llywodraeth Cymru Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol sy'n nodi bod angen cydsyniad Senedd Cymru ar gyfer cymalau 19 ac 20 o'r Bil. Mae'r Memorandwm wedi cael ei gyfeirio at nifer o bwyllgorau'r Senedd ac mae'r llythyr hwn yn cael ei gyhoeddi ar y cyd gan y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg a'r Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol. Wrth i'r Pwyllgor ystyried ei ymateb i'r Memorandwm, hoffem eich gwahodd i roi tystiolaeth ysgrifenedig ynghylch eich safbwynt chi o ran cydsyniad deddfwriaethol.

Yn benodol, byddai gennym ddiddordeb mawr mewn clywed eich barn am y canlynol:

- diweddariad ar drafodaethau gyda Llywodraeth y DU, gan gynnwys manylion unrhyw sicrwydd y mae Llywodraeth Cymru yn ei geisio ynghylch effaith y Bil ar blant ar eu pen eu hunain sy'n ceisio lloches;

- pryderon Llywodraeth Cymru mewn perthynas ag effaith y Bil ar blant ar eu pen eu hunain sy'n ceisio lloches yng Nghymru;

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
Cysylltu@senedd.cymru
0300 200 6565

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
Contact@senedd.wales
0300 200 6565

- y goblygiadau a ragwelir yn sgil y Bil ar asesu anghenion a darparu gofal a chymorth o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014;
- a yw'r Bil yn gydnaws â Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011, gan gynnwys pa effaith y byddai'n ei chael ar y dull 'plentyn yn gyntaf, ymfudwr yn ail' sy'n sail i'r cymorth a roddir i blant sy'n ceisio lloches yng Nghymru;
- baich y gost a ragwelir ar gyfer awdurdodau lleol yng Nghymru;
- pryderon ynghylch y Bil a'i gydnawsedd â hawliau'r Confensiwn.

Yn olaf, a allwch gadarnhau a yw swydd y Comisiynydd Gwrthgaethwasiaeth Annibynnol yn wag ar hyn o bryd ac os felly, am faint o amser y bu'n wag a phryd y gallwn ddisgwyl i'r swydd gael ei llenwi?

Mae amser yn holl bwysig o ran y mater hwn, ac felly mae'r Pwyllgor yn gofyn i chi sicrhau y daw unrhyw ymateb ysgrifenedig i law erbyn 1 Mehefin 2023 fan bellaf.

Yn gywir,

Jayne Bryant AS



Cadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Senedd Cymru

Jenny Rathbone AS



Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol

Senedd Cymru

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg

We welcome correspondence in Welsh or English